# Cynnal gwaith cynnal a chadw ar offer neu systemau darlledu a chyfryngau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer a chynnal gwaith cynnal a chadw ar offer neu systemau darlledu a chyfryngau yn unol â gofynion ansawdd.

Mae'r safon hon yn berthnasol i amrywiaeth o systemau darlledu a chyfryngau gan gynnwys gweithrediad stiwdio, darlledu allanol, ôl-gynhyrchu, dosbarthiad a darllediad. Gall gweithgareddau cynnal a chadw fod yn rhai wedi'u trefnu, rhai arferol neu rai mewn argyfwng.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio fel technegwyr a pheirianwyr systemau darlledu a chyfryngau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael manylion am yr offer a systemau sydd i'w cynnal a chadw
2. egluro gwybodaeth sy'n ymwneud â chynnal a chadw offer a systemau
3. diweddaru'r bobl berthnasol ar unrhyw ddatblygiad yn unol â gweithdrefnau cytunedig
4. cynnal gwaith cynnal a chadw ar adegau cytunedig ac yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
5. cydymffurfio gyda rhagofalon diogelwch penodol wrth gynnal a chadw systemau darlledu a chyfryngau
6. gwirio bod gwaith cynnal a chadw yn cydymffurfio ar gyfer rheoliadau a chanllawiau
7. dilyn camau yn syth i ymateb i a chanfod problemau daw i'r amlwg
8. cofnodi gwaith cynnal a chadw caiff ei gyflawni, achosion problemau a'r camau a ddilynwyd yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
9. rhoi gwybod am a rhannu problemau nad oes modd eu datrys gydag eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben, manteision, cyfyngiadau a risgiau'r offer a meddalwedd sydd eu hangen ar gyfer systemau darlledu a chyfryngau
2. protocolau sy'n gysylltiedig ag offer, meddalwedd a systemau darlledu gan gynnwys pwy sy'n gallu eu defnyddio
3. rhagofalon diogelwch penodol i'w dilyn wrth weithio gydag offer, meddalwedd a systemau darlledu
4. sut i weithio'r offer, meddalwedd a systemau darlledu a chyfryngau sydd eu hangen
5. y diben a'r protocolau sy'n gysylltiedig â chyfeirio gan ddefnyddio IP
6. egwyddorion cynnal a chadw rhwydwaith
7. sut i gysylltu systemau ac offer darlledu a chyfryngau ar gyfer systemau rhwydwaith
8. yr offer a'r technegau i adnabod a chywiro achosion diffygion syml mewn offer a systemau darlledu a chyfryngau
9. prosesau'r sefydliad ar gyfer sicrhau diogelwch data a systemau rhwydwaith
10. sut i sicrhau cyflenwad trydan di-dor
11. amodau'r cytundebau lefel gwasanaeth a gofynion Ansawdd Gwasanaeth yn ymwneud â chynnal a chadw a datrys problemau
12. **nodweddion cynnal a chadw hanfodol** ar gyfer yr offer neu system ddarlledu a chyfryngau
13. egwyddorion cynnal a chadw, gweithdrefnau proses fel ataliol, cywirol ac atgyweirio brys
14. ffactorau sy'n cael effaith ar benderfyniadau am waith cynnal a chadw parhaus yn erbyn amnewid, gan gynnwys cost, amser segur, dibynadwyedd
15. sut caiff offer a systemau cyfryngau eu defnyddio fel rhan o'r llif gwaith o fewn y sefydliad
16. yr offer a'r cyfarpar profi sydd eu hangen er mwyn cyflawni gweithgareddau cynnal a chadw
17. sut i gael gafael ar a dehongli manylebau, dyluniadau a goddefiannau gan wneuthurwyr
18. sut i gael eglurhad am yr offer neu system ddarlledu a chyfryngau
19. pwy sy'n gallu cymeradwyo unrhyw newidiadau i offer neu systemau darlledu a

chyfryngau
20. y rheoliadau, canllawiau, gweithdrefnau a systemau cwmni perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a darlledu a sut i gael gwybodaeth amdanynt
21. systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth a pham ei fod yn bwysig eu defnyddio
22. sut i roi gwybod am a rhannu problemau gydag eraill

## Cwmpas/Ystod

**nodweddion cynnal a chadw hanfodol** gan gynnwys:

1. trydanol
2. electronig
3. mecanyddol
4. meddalwedd
5. amgylcheddol
6. cynaliadwyedd
7. ergonomig

SKSBE10

Cynnal gwaith cynnal a chadw ar offer neu systemau darlledu a chyfryngau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSBE10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peiriannydd Darlledu, Peiriannydd Darlledu Allanol, Peiriannydd Stiwdio, Peiriannydd Prosiect, Peiriannydd Ôl-gynhyrchu, Peiriannydd Lluniau, Peiriannydd Cynnal a Chadw Darlledu, Peiriannydd Darllediad |
| **Cyfres/Set** | Peirianneg Systemau Darlledu a Chyfryngau |
| **Geiriau Allweddol** | darlledu; peirianneg; cynnal a chadw; offer; systemau; prosesau; |